



**PWNC: FFRAMWAITH LLES A LLUNIO LLEOEDD DRAFFT
CAERFFILI**

ADRODDIAD GAN: PRIF WEITHREDWR

--

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am rai o'r buddsoddiadau cyfalaf sylweddol a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf ar draws amcanion lles y Cyngor a chynnig cyfres o brosiectau a fydd yn sail i Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd ar draws y fwrdeistref sirol.
- 1.2 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi mecanwaith ymgysylltu â'r gymuned arfaethedig sy'n galluogi rhanddeiliaid allweddol i gael y cyfle i lunio a mireinio'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd dros y blynyddoedd i ddod.

2. CRYNODEB

- 2.1 Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd ers gwanwyn 2020. Mae'r Fframwaith wedi'i adeiladu ar yr ystod eang o fuddsoddiadau cyfalaf a wnaed ar draws y fwrdeistref sirol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac fe'i datblygwyd i ystyried:
 - Rhaglenni buddsoddi aml-flynyddol hirsefydlog presennol
 - Cyfleoedd ariannu a buddsoddi sy'n dod i'r amlwg ac sy'n bodoli eisoes
 - Blaenoriaethau ac amcanion y Cynllun Corfforaethol
 - Angen a nodwyd yn flaenorol
 - Cyfleoedd prosiect cydweithredol
 - Cyfleoedd Masnachol sy'n dod i'r amlwg
 - Fframwaith Adfer Strategol y Cyngor
- 2.2 Mae'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd drafft a nodir yn 5.8 yn cynnwys rhestr o fuddsoddiadau posibl ar draws Caerffili sy'n fwy na £231m, sy'n cyd-fynd yn benodol ag Amcanion Lles mabwysiedig y Cyngor.
- 2.3 Mae'r fframwaith buddsoddi hwn yn rhoi cyfle adeiladu, atgyweirio ac adnewyddu seilwaith ac asedau allweddol ar hyd a lled bwrdeistref sirol Caerffili, yn ogystal â hyrwyddo ymhellach y nodau a'r cyfeiriad polisi a osodwyd yn flaenorol o fewn strategaethau megis cynllun Corfforaethol y Cyngor, y Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol, Strategaeth Adfywio'r Cyngor "Sylfaen ar gyfer Llwyddiant 2018-

2023" yn ogystal â'r cynigion cyffrous a nodir yn Rhaglen Band B Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

- 2.4 Mae'r cynnig fframwaith hwn o'r pwysigrwydd mwyaf ar hyn o bryd, gan ei fod yn cynnig elfen bwysig o gynllun adfer Covid y Cyngor, sy'n ceisio cefnogi ein cymunedau wrth iddynt ddechrau dod allan o'r pandemig Covid.
Mae buddsoddiadau hirdymor mewn seilwaith fel yr un a gynigir o fewn y Fframwaith hwn yn meddu ar y potensial i ailgydbwysu'r economi leol, gwella cynhyrchiant a chreu swyddi a chyfleoedd ar draws Caerffili, sy'n bwysig iawn wrth i ni gefnogi ein cymunedau i ailadeiladu dyfodol cynaliadwy a gwydn ar ôl Covid. Mae'r cyfle'n bodoli i gydweithio i greu Caerffili well a mwy llewyrchus i bawb, gan ymgorffori ymhellach ein model darparu cymunedol ac arweinyddiaeth ddinesig gyfunol "Tîm Caerffili".
- 2.5 Bydd angen datblygu'r prosiectau a'r syniadau o fewn y Fframwaith yn gynigion a gaiff eu llunio drwy ymgysylltu â'r gymuned a chraffu cyn gwneud unrhyw benderfyniad i weithredu.
- 2.6 Mewn llawer o achosion, bydd y buddsoddiad i gefnogi'r prosiectau hyn yn gyfuniad o gyfalaf mewnol a grant allanol, gyda'r olaf hefyd yn destun prosesau cymeradwyo allanol perthnasol.
- 2.7 Mae'r rhaglen ymgysylltu barhaus a ddisgrifir ym mhwynt 5.9 wedi'i chynllunio'n benodol i sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei fireinio'n barhaus dros y blynyddoedd nesaf, gyda chyfleoedd i ychwanegu cynigion Lles a Llunio Lleoedd yn y dyfodol, a'u hystyried wrth iddynt ddod i'r amlwg.

3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnwyd i'r Cabinet:

- a) Ystyried unrhyw safbwyntiau ac argymhellion a wnaed yng nghyfarfod yr holl Bwyllgorau Craffu ar yr 22 Chwefror.
- b) Nodi'r buddsoddiadau Lles a Llunio Lleoedd, sy'n dod i gyfanswm o dros £153m sydd wedi'u gwneud rhwng 2017 a 2020, fel y nodir ym mhwynt 5.6
- c) Nodi'r buddsoddiadau Lles a Llunio Lleoedd sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd, sy'n dod i gyfanswm o dros £129m, i'w cyflawni fel y nodir ym mhwynt 5.7
- d) Cytuno y bydd y prosiectau a nodir ym mhwynt 5.8, sy'n dod i gyfanswm o fwy na £231m yn ffurfio'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd cychwynnol ar gyfer y Cyngor o 2021 ymlaen, gan ffurfio map llwybr cynaliadwy a gwydn i'n cymunedau ddod allan yn gryfach o'r pandemig Covid
- e) Cytuno y gellir datblygu'r prosiectau a nodir ym mhwynt 5.8 yn achosion busnes i'w hystyried
- f) Cydnabod bod yn rhaid i bob cynnig fynd drwy'r prosesau ymgynghori, craffu, cymeradwyo cyllid a gwneud penderfyniadau perthnasol cyn eu gweithredu
- g) Cytuno ar y mecanweithiau arfaethedig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a nodir ym mhwynt 5.9

- h) Nodi'r cymeradwyaethau cyllid sy'n dod i gyfanswm o £28.591m sydd eisoes wedi'u cadarnhau ar gyfer y Fframwaith Llundain Lleuedd fel y nodir yn Adran 10 o'r adroddiad.
- i) Cymeradwyo argymhelliad y dylid dyrannu'r cyllid o £1.640m o fewn cyllideb Cyfraniad Refeniw Cyllid Amrywiol i gyllideb Gwariant Cyfalaf 2020/21 hefyd i'r Fframwaith Llundain Lleuedd, a fyddai'n cynyddu cyfanswm y cyllid sydd ar gael i £30.231m.
- j) Cytuno y bydd cyfarfod o'r holl Gydbwyllgorau Craffu yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn i ystyried cynnydd y Fframwaith Lles a Llundain Lleuedd.
- k) Cytuno i dderbyn adroddiad ar wahân ar y Gronfa Grymuso Cymunedau a fydd yn manylu ar y mecanweithiau lle y gall Aelodau Etholedig, ochr yn ochr â'u cymunedau, ddatblygu syniadau prosiect i'w hystyried o fewn y Fframwaith.

4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 4.1 Cytuno ar fuddsoddiad Fframwaith Lles a Llundain Lleuedd posibl ar draws y fwrdeistref sirol ar gyfer y cyfnod 2021 ymlaen, ar yr amod bod yr achosion busnes angenrheidiol yn cael eu datblygu, ymgynghori arnynt a chytuno arnynt gan y corff gwneud penderfyniadau perthnasol.

5. YR ADRODDIAD

- 5.1 Mae Llundain Lleuedd yn ymwneud â chreu Cymunedau sy'n lleuedd gwych i fyw ynddynt nawr, yn ogystal â bod â'r potensial i ffynnu yn y dyfodol. Wrth i ni ddod allan o bandemig Covid, mae'n hanfodol ein bod yn darparu llwybr ymlaen i'n cymunedau sy'n cynnig iddynt ddyfodol cynaliadwy a gwydn. Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol ein bod yn deall mai anghenion a heriau ein cymunedau cyfansoddol, effaith y buddsoddiadau a'r ymyriadau a wnaed hyd yma a'r rhai sy'n ofynnol yn y blynyddoedd i ddod, ynghyd â dealltwriaeth fanwl o'r hyn sy'n gwneud cymuned yn unigryw yw sylfaen unrhyw ddull Llundain Lleuedd.
- 5.2 Dylai buddsoddiad mewn prosiectau Lles a Llundain Lleuedd cael eu cynllunio i gryfhau gwedd ein cymunedau'n uniongyrchol drwy wella agweddau allweddol ar fywyd ledled Caerffili. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ystod o fuddsoddiadau o'r fath, yn y gorffennol diweddar a dros y blynyddoedd i ddod, y bwriedir iddynt wella ar y cyd bywydau'r rhai sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol.
- 5.3 Bydd y prosiectau Lles a Llundain Lleuedd sy'n sail i'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfuniad o ddulliau ariannu. Bydd rhai prosiectau'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan gyfalaf y Cyngor, bydd rhai yn gyfuniad o gyfalaf y Cyngor a chyllid allanol, ochr yn ochr â rhai yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl yn allanol. Ym mhob achos, bydd y Cyngor yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu'r syniad a chaffael y buddsoddiad.
- 5.4 Mae rhaglenni gwerth miliynau o bunnoedd a gynlluniwyd i wella ansawdd adeiladau ein hysgolion, dod â Thai Cyngor i fyny at Safon Ansawdd Tai Cymru, gwella seilwaith priffyrdd y Fwrdeistref Sirol, gwella'r cyfleoedd i fyw bywyd iach a chreu cyfleoedd newydd a gwell i fusnesau ffynnu, oll yn rhan o'r rhaglen hon.

5.5 Amcanion Lles Caerffili

Yn 2018, mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Corfforaethol a oedd yn cynnwys chwe amcan lles. Gosodwyd yr amcanion lles gan ddefnyddio gwybodaeth a data o'r Aseiad Lles a gynhaliwyd i lywio Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yr ymarfer hwn yn dangos yn uniongyrchol bryderon ein trigolion a'r ardaloedd yr hoffent eu gweld yn cael eu gwella.

Mae'r amcanion lles yn cwmpasu'r cyfnod 2018-2023 ac maent fel a ganlyn:

- **Amcan Lles 1** – Gwella cyfleoedd addysg i bawb
- **Amcan Lles 2** – Galluogi cyflogaeth
- **Amcan Lles 3** – Mynd i'r afael â'r cyflenwad, cyflwr a chynaliadwyedd o gartrefi ledled y fwrdeistref sirol a rhoi cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu gwella iechyd a lles pobl
- **Amcan Lles 4** – Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd
- **Amcan Lles 5** – Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Ffordd Iach o Fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy sydd o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- **Amcan Lles 6** – Cynorthwyo dinasyddion i barhau i fod yn annibynnol a gwella eu lles

5.6 Buddsoddiad Lles a Llunio Lleoedd 2017-2020

Yn ystod y cyfnod 2017-2020, roedd y Cyngor wedi gallu cynorthwyo buddsoddiad gwerth dros £153m ar draws ei gymunedau a'r chwe amcan lles. Mae rhai o'r cynlluniau mwyaf arwyddocaol, gyda buddsoddiadau sy'n fwy na £100 mil, wedi'u crynhoi yn ôl amcan lles yn y tabl isod.

Delwedd 1 – Detholiad o rai o'r buddsoddiadau cymeradwy mwyaf arwyddocaol 2020-2023



Tabl 1 – Buddsoddiad Hanesyddol Lles a Llunio Lleoedd 2017-2020

WB01	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	8.075m	Cyfnod Cynradd Idris Davies 3-18
	2.000m	Estyniad 9 Dosbarth a lifft yn Ysgol Gyfun Trecelyn
	2.000m	Rhaglen adnewyddu Band A Ysgol Gyfun Coed Duon
	1.800m	Ehangu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Ysgol y Castell
	1.340m	Gwaith adnewyddu llwyr Cam 1 Band A Cae'r Drindod
	0.865m	Cae 3G yn Ysgol Gyfun Coed Duon
WB02	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	0.300m	Uwchraddio safle llawn Storfa Tir-y-berth
	0.392m	Gadael Tŷ Dyffryn (i alluogi Transcend i gychwyn)
WB03	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	100.9m	Gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)
	6.250m	Cynllun EW1 Parc Lansbury
	4.200m	Buddsoddiad POBL yn Stryd y Felin, Rhisga
	3.900m	Gwaith Amgylcheddol SATC
	2.500m	Cynllun ARBED Parc Lansbury
	2.015m	Caffaeliad Eiddo
	1.920m	Gwaith Gwella Eiddo Anhraddodiadol
	1.100m	Gwaith Ynni Pontlotyn
	1.100m	Arbed Ynni (I Park)
	1.000m	Gwaith Ynni Gilfach
	0.692m	Paratoi Safle Dinesig Pontllan-fraith ar gyfer Tai
	0.300m	Llety i'r Digartref ym Maes y Dderwen
	0.200m	Llety i'r Digartref yn Nhŷ Idris Davies
	0.126m	Addasiadau Eiddo
WB04	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	7.938m	Cylchfan Pwll-y-pant
	0.450m	Darparu seilwaith yn Nhŷ Du
	0.407m	Teithio Llesol – Ystrad Mynach i Nelson
WB05	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	0.810m	Ardal chwarae Antur Cwmcarn/porthdai newydd
	0.485m	Gwella Amgylcheddol Lle'r Gerddinen
	0.182m	Gwaith uwchraddio i Ganolfan Hamdden Trecelyn
WB06	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	0.154m	Uwchraddio Ystafell Iechyd Canolfan Hamdden Caerffili
	0.120m	Estyniad Hafod Deg Rhymni

Mae llawer o'r buddsoddiadau cyfalaf hyn hefyd yn dod â manteision ehangach gyda hwy na dim ond creu'r ased newydd ei hun. Gan gymryd datblygu'r cyfnod cynradd newydd yn Idris Davies 3-18 fel enghraifft, nodwyd y manteision canlynol hefyd y tu hwnt i'r buddsoddiad cyfalaf o £8m yn adeilad yr ysgol:

- Roedd 98% o'r gweithlu adeiladu yn dod o Gymru
- Roedd 76% o wariant y prosiect yng Nghymru
- Roedd 82% o'r is-gontractwyr adeiladu yn dod o Gymru
- Roedd 100% yn fusnesau bach a chanolig

- Crëwyd 233 wythnos o gyflogaeth (cyfanswm o 13 o bobl) yn ystod y gwaith adeiladu
- Darparwyd 132 wythnos o hyfforddiant

Gan ystyried y math hwn o fanteision economaidd-gymdeithasol ehangach, y mae llawer ohonynt o fewn rhodd y Cyngor i'w cyflawni, dim ond fel llinell sylfaen ar gyfer datblygu manteision cymunedol neu gymdeithasol ehangach y dylid ystyried lefel y buddsoddiad a amlinellir ym mhwyntiau 5.7 a 5.8 isod.

5.7 Buddsoddiad Lles a Lluio Lleoedd 2020-2023 (sydd â chymeradwyaeth)

Yn ystod y cyfnod 2020-2023, bydd swm sylweddol o fuddsoddiad pellach yn cael ei wneud ar draws Caerffili. Hyd yn hyn, derbyniwyd cymeradwyaethau prosiect gwerth cyfanswm o dros £129m ar draws y chwe amcan lles. Ceir crynodeb o'r prosiectau mwyaf arwyddocaol o'r prosiectau hyn yn y tabl isod.

Delwedd 2 – Detholiad o rai o'r buddsoddiadau cymeradwy mwyaf arwyddocaol 2020-2023



Tabl 2 = Prosiectau Cymeradwy Lles a Lluio Lleoedd 2020-2023

WBO1	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	6.400m	Ehangu'r Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg
	6.000m	Rhaglen EdTech (Hyb)
	5.000m	Gwaith Grant Cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion Llywodraeth Cymru
	5.000m	Grant Gofal Plant (LIC)
	1.400m	Gwaith Grant Cyfalaf Cynnal a Chadw CBSC (bob blwyddyn)
	1.340m	Adnewyddu Band A yn ysgol Cae'r Drindod
	0.755m	Trac Rhedeg Oakdale
	0.751m	Cynyddu Capasiti yn Ysgol Penalltau
	0.500m	Estyniad yn Ysgol Gynradd Ystrad Mynach
	0.442m	Estyniad UCD Glan-y-nant
	0.306m	Caeau 3G newydd yn Ysgol Lewis Pengam, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a Sant Cenydd
WBO2	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	13.00m	Caffael, dymchwel ac ailddatblygu Stryd Pentrebane Caerffili gyda Linc Cymru

	10.00m (y mae £0.4m ohono'n ymwneud â Specsavers)	Dymchwel Adeilad Specsavers er mwyn hwyluso datblygiad tymor hwy o Westy yn Lôn y Parc Caerffili
	7.000m	Datblygiad Tai Oakdale gan gynnwys cyfleuster rhandir lleol newydd
	3.900m	Unedau Cychwyn Tŷ Du
	2.900m	15 x busnes newydd yn Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt
	1.360m	Menter Adfywio wedi'i Thargedu mewn Gwella Eiddo
	0.200m	Man Aros Coetsis newydd ger Castell Caerffili
WB03	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	40.00m	Gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)
	10.00m	Datblygiad Gerddi'r Siartwyr
	4.000m	Gwaith Amgylcheddol SATC
	3.000m	Ailfodelu dau gynllun tai gwarchod
	1.800m	Gwaith Ynni Parc Lansbury
	1.000m	Gwelliannau Eiddo Anhraddodiadol (Bedwas)
	1.000m	Ailddatblygiad Ysgol a Maes Bedwellte
	0.500m	Tŷ Bedwellte - Adeilad Newydd (Adran 106)
WB04	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	0.489m	Teithio Llesol yng Nghaerffili
	0.150m	Gwella Pont Droed Trecenydd
WB05	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	0.550m	Gwelliannau i Ganolfan Hamdden Trecelyn
	0.465m	Dymchwel Baddonau Longbridge a gwella'r ystafelloedd newid
WB06	£	Buddsoddiadau Enghreifftiol
	6.387m	Gwaith Dymchwel/Adlinio'r Ffordd yn Hafodyrynys
	1.500m	Cwblhau ac Agor mynwent newydd basn Caerffili yn Nantgarw
	1.000m	Gwelliannau i Ffordd Goedwig Cwmcarn
	0.800m	Estyniad Safle Amwynderau Dinesig Penallta a'r Siop Ail-ddefnyddio
	0.705m	Gwasanaethau Maethu Therapiwtig MyST (Fy Nhîm Cymorth)
	0.115m	Adnewyddu Caffi Cwmcarn

5.8 Buddsoddiad Arfaethedig Lles a Llunio Lleoedd 2020 - ymlaen

Yn ystod y cyfnod 2020-2023 a thu hwnt, mae'r Cyngor yn dymuno datblygu a gweithredu Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd sy'n adeiladu ar y buddsoddiad a wnaed hyd yma ac sy'n ceisio helpu cymunedau Caerffili i ddod yn lleoedd gwych i fyw ynddynt nawr, yn ogystal â chael y potensial i ffynnu yn y dyfodol, wrth iddynt ddod allan o'r pandemig Covid.

Mae'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd drafft a grynhoir isod yn cynnwys ystod eang o brosiectau a allai, pe baent yn dderbyniol i'r corff gwneud penderfyniadau perthnasol,

gyflawni buddsoddiadau pellach sylweddol ac amrywiaeth o gyfleusterau gwell ar draws cymunedau Caerffili.

Datblygwyd y Fframwaith drafft drwy ymgynghori â Phenaethiaid Gwasanaeth, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet ac mae hefyd wedi'i lunio drwy'r mewnwelediad a gynhyrchwyd gan Holiadur Trafodaeth Caerffili.

Dylid nodi mai dim ond cynigion yw'r prosiectau hyn ar hyn o bryd. Bydd datblygiad a dilyniant pob prosiect yn destun ymgynghori ac ymgysylltu perthnasol; lle bo angen, datblygu a chraffu ar achosion busnes cadarn, a'r buddsoddiad ariannol angenrheidiol sydd ar waith ac ar ôl cael cymeradwyaeth. Efallai y bydd adegau hefyd lle bydd angen caniatâd cynllunio cyn i brosiect ddatblygu.

Bydd y Fframwaith yn ei gyfanrwydd yn rhan o raglen ymgysylltu barhaus gyda chymunedau Caerffili a fydd yn rhoi'r potensial i randdeiliaid ychwanegu prosiectau pellach, yn ogystal â mireinio neu ddileu prosiectau sydd eisoes yn bodoli o fewn y Fframwaith.

Pe bai'r prosiectau arfaethedig isod yn cael eu datblygu yn y pen draw, bydd buddsoddiad o fwy na £231m ar gael i'r fwrdeistref sirol a fydd yn cefnogi ystod eang o welliannau ar draws y chwe amcan lles.

Tabl 3 – Fframwaith Lles a Lluio Lleoedd drafft 2021 - ymlaen

WBO1	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	35.00m	Cwm Rhymni Uchaf Datblygiad posibl o gyfleusterau defnydd cymysg, gan gynnwys cyfuniad o ddefnydd addysg / hamdden / tai a chyflogaeth
	20.00m	Buddsoddi mewn Ysgolion Uwchradd Mae buddsoddiad mewn Ysgolion Uwchradd eto i'w benderfynu ac yn destun adolygiad parhaus.
	12.70m	Ehangu Cae'r Drindod gan gynnwys Canolfan Blant Ehangu Ysgol bresennol Cae'r Drindod i gynnal 80 o leoedd ychwanegol a darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i'n disgyblion mwyaf agored i niwed, a fydd yn gallu diwallu anghenion dysgu, cymdeithasol a meddygol, yn ogystal â chreu cyfleusterau ar gyfer gweithio integredig ar draws Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd, a darparu cyfleoedd ar gyfer gofal plant, mannau awyr agored a defnydd cymunedol.
	9.50m	Datblygiad Cwm Gwyddon ar hen safle Ysgol Uwch Cwmcarn Bydd y prosiect yn darparu gofal plant addas i'r diben, Sylfaen Adnoddau Arbennig ag 16 lle a bydd yn cynyddu darpariaeth a chapasiti addysgol yr ysgol o 220 i ysgol gynradd 420 lle gyda meithrinfa a mwy.
	8.900m	Adeilad Ysgol Newydd ym Mhlas-y-felin

		Creu Ysgol Gynradd Plas-y-felin newydd o'r radd flaenaf ar dir y safle presennol i gynnwys defnydd cymunedol o'r cyfleuster
	5.500m	Adeiladu Ysgolion Newydd (Ysgol Gynradd Gilfach ac Ysgol Gynradd y Parc) Cyfuno Ysgol Gynradd Gilfach Fargod ac Ysgol Gynradd y Parc ar safle ysgol newydd, gan weithio tuag at ysgol sero carbon net.
	5.500m	Canolfan Dysgwyr Agored i Niwed ym Mhontllan-fraith (safle hen Ysgol Ramadeg Pontllan-fraith) Creu canolfan ragoriaeth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed o bob rhan o Gaerffili, a fydd â chyfleoedd dysgu, darpariaeth chwaraeon dan do ac awyr agored o ansawdd uchel yn ogystal â mynediad at gymorth o'r radd flaenaf. Bydd y Ganolfan yn lleihau'r angen i roi cymorth i ddysgwyr ar gontract allanol i ddarparwyr preifat a bydd yn galluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol.
	4.200m	Ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer Bedwas, Trethomas a Machen Creu ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd i ddarparu ar gyfer y dalgylch o bentrefi Bedwas, Trethomas a Machen.
	4.200m	Ysgol Gynradd Newydd Rhymni Uchaf Adeilad newydd yn lle Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf presennol, safle i'w benderfynu.
	4.000m	Ysgol Gynradd Newydd yn Llancaeath / Llanfabon Cyfuno Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon er mwyn creu Ysgol Gynradd newydd i gynnwys defnydd cymunedol o'r cyfleuster
	2.000m	Ymestyn Ysgol Gynradd Sant Iago Ehangu addysg gynradd yn amodol ar alw.
	0.500m	Buddsoddi yn safle presennol Idris Davies 3-18 i ddarparu ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd posibl.
	0.400m	Adleoli Ysgol Gynradd Gymraeg Gilfach Fargod i safle presennol Ysgol Gynradd y Parc. Bydd hyn yn gofyn am elfen o adnewyddu.
	0.260m	Cae 3G yn Ysgol Idris Davies Sefydlu cae 3G sy'n cefnogi rygbi a phêl-droed o fewn safle presennol yr ysgol.
	0.200m	Adleoli Ysgol y Lawnt i safle newydd posibl.
	0.065m	Cyfleuster addysg ym Mharc Virginia

		Addasu adeilad Clwb Golff Parc Virginia sydd bellach wedi'i gaffael i ddarparu canolfan ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid ac ased cymunedol
WBO2	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	1.500m	Ehangu cyfleoedd cyflogaeth yn Oakdale Gweithio gyda LIC i ehangu'r cyfleoedd cyflogaeth yn Oakdale.
	I'w gadarnhau	Cynllun Treuliad Anerobig Adnewyddadwy Bryn/Tredomen Archwilio'r cyfle i wneud cysylltiad gwifren uniongyrchol rhwng Tredomen a'r gweithfeydd Treuliad Anerobig i dderbyn trydan oddi yno ar gyfradd fwy deniadol nag yn uniongyrchol o'r grid.
	0.150m	Ehangu'r Cynnig Ystafell De Parc Gwledig Presennol Ceisio treialu cynnig ystafell de Parc Gwledig estynedig i gynnwys safleoedd Parciau Gwledig eraill
	I'w gadarnhau	Cynigion Diwydiannol / Cyflogaeth Datblygu cynigion ar gyfer gwella a chynyddu'r cynnig mewn safleoedd ar draws y fwrdeistref sirol, fel Capital Valley
WB03	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	35.00m	Rhaglen buddsoddi tai Adeiladau Newydd ar draws y fwrdeistref sirol ar ôl i raglen SATC ddod i ben.
	3.500m	Cyfleoedd Adeiladu Newydd - Y Cilgant, Trecenydd a Rhodfa Llanfabon, Bedwas (16 uned yn gyfan gwbl)
	1.500m	Cwblhau gwaith Arbed ym Mharc Lansbury
WB04	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	17.00m	Strategaeth Datgarboneiddio Cymeradwyo prosiectau strategaeth a chynnydd fel Fferm Ynni Haul Cwm Ifor (£17m).
	4.000m	Safle Parcio a Theithio Ystrad Mynach - 113 o lefydd Cynnig i ymestyn y Parcio a Theithio a'r cyfleuster beicio presennol i hyrwyddo newid moddol mwy a chefnogi'r cynigion datblygu o'r CDLI sy'n dod i'r amlwg
	2.500m	Buddsoddiad Priffyrdd Ledled y fwrdeistref Sirol Cynnal a chadw ac uwchraddio'r seilwaith priffyrdd a gwelliannau mewn cyflwr ffyrdd ledled Caerffili
	1.600m	Rhaglen Amnewid Cerbydau Disodli ac uwchraddio cerbydau rheng flaen y Cyngor gan gynnwys, lle bynnag y bo modd, symud i gerbydau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes er mwyn sicrhau y gellir cynnal gwasanaethau allweddol. Mae'r rhaglen newydd hefyd yn cysylltu â Strategaeth Datgarboneiddio'r Cyngor.
	0.950m	A469 Tredegar Newydd / Pontlotyn

		Gwaith ymchwilio a dylunio parhaus ynghyd â rhywfaint o waith cynnal a chadw gyda buddsoddiad yn cael ei wario erbyn diwedd mis Mawrth 2021. Bydd cynllunio tymor hwy ar gyfer y llwybr yn cael ei ystyried yn dilyn y gwaith ymchwilio.
	0.590m	Cyflwyno lonydd beicio ar draws y fwrdeistref sirol. Ceisio cynyddu nifer y lonydd beicio i gefnogi'r Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol, yr agenda Teithio Llesol a newid yn yr hinsawdd
	0.511m	Teithio Llesol Pellach – Ystrad Mynach i Benallta Darparu llwybr Teithio Llesol rhwng Ystrad Mynach a Chwm Calon (Penallta) a fydd yn cynnwys croesi rheilffordd.
	0.400m	Lleddfu Traffig Canol y Dref Cyflwyno mesurau Lleddfu Traffig Canol y Dref gyda rhai prosiectau wedi dechrau fel rhan o ddyfarniad grant Covid LIC
	0.300m	Cyfnewidfa Drafnidiaeth Caerffili Datblygu llwybrau/rhwydwaith teithio llesol lleol er mwyn cefnogi'r agenda llunio lleoedd tref Caerffili, gan ganolbwyntio ar ddatblygu opsiynau gwella rhwng y gyfnewidfa, y parc busnes a Pharc Lansbury.
	0.300m	Gwelliannau i'r Maes Parcio Cyflwynwch beiriannau Talu Tapiwch ac Ewch mewn meysydd parcio cyhoeddus tra'n cael gwared ar godi tâl am feysydd parcio ym Mharciau Gwledig Caerffili. Mae dileu codi tâl mewn Parciau Gwledig yn cysylltu â Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol y Cyngor.
	Disgwyl Grant Dyfarniad	Teithio Llesol Teithio Llesol Posibl yn ardal Coed Duon Fwyaf. Amrywiaeth o gynlluniau i'w datblygu.
	I'w gadarnhau	Parcio a Theithio Llanbradach Ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru i Gyflwyno Cynllun Parcio a Theithio ar gyfer Llanbradach
	0.040m	Cynllun Cylchfannau Glân Adeiladu ar gynllun nawdd presennol y cylchfan.
	I'w gadarnhau	Gwella Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Dylunio a gweithredu cyfres o gynlluniau amddiffyn rhag llifogydd ar draws y Fwrdeistref Sirol.
WB05	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	36.00m	Basn Caerffili

		Datblygiad posibl safle tir llwyd allweddol yng nghanol tref Caerffili ar gyfer cyfleusterau defnydd cymysg, gan gynnwys cyfuniad o ddefnydd addysg / hamdden / tai a chyflogaeth
	1.200m	Canolfan Ymwelwyr Penallta
	1.000m	Gwaith Gwella'r Gamlas yn Rhisga Ymgymryd â Gwaith Gwella'r Gamlas yn Rhisga
	0.500m	Gwaith Gwella Porth y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 2020/21.
	0.350m	Newid hinsawdd - Gwaith i Dŷ Penallta Rhesi to ffotofoltaig ar adeiladau Campws Tredomen a phwyntiau newid Cerbydau Trydanol ychwanegol ar y campws
	0.328m	Cronfa Cadernid Cymunedol Creu cronfa lle gall aelodau etholedig, grwpiau cymunedol a sefydliadau wneud cais am gyllid i gyflawni gwelliannau o fewn yr ardal
	0.400m	Creu Sylfeini Hyb Chwaraeon Cymunedol yng Nghanolfan Hamdden Sue Noake Gosod Hwb Hoci Llain Glaswellt Ffug o'r radd flaenaf yn Lle'r Llain Glaswellt Ffug yn Sue Noake yn ogystal â chreu Cae Rygbi newydd i uwch-chwaraewyr a gwella'r Cae Rygbi presennol yn y Ganolfan.
	0.200m	Rhaglen Prif Barciau Caerffili Creu Rhaglen Prif Barciau sy'n darparu nifer o deithiau cerdded deniadol a mannau awyr cyhoeddus agored lle gall preswylwyr wneud ymarfer corff a chael awyr iach. Y rhaglen i gynnwys Parc Morgan Jones, Taith Gerdded Sirhywi, Parc Waunfawr, Parc Ystrad Mynach, Parc Bargod, Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn ogystal â Ffordd Goedwig Cwmcarn a Pharc Cwm Darran
	0.150m	Lôn y Parc, Caerffili Archwilio'r posibilrwydd o agor fel marchnad naid gyda meinciau / gerddi neu agor y tir i Barc Dafydd Williams ar gyfer twristiaid/trigolion.
	0.080m	Statws y Faner Werdd Ceisio statws y Faner Werdd ar gyfer Camlas Rhisga - Cangen Crymlyn a Pharc Gwledig Penallta. Bydd hyn yn gofyn am rai gwelliannau i'r seilwaith, mwy o waith cynnal a chadw, biniau a meinciau ychwanegol yn ogystal â phlannu coed a pheintio'r rheiliau a rhwystrau sy'n bodoli eisoes.
	0.020m	Rhaglen Glanhau Trefi

		Trefi allweddol i gael eu glanhau'n ddwfn a'u chwynnu cyn misoedd yr haf
	I'w gadarnhau	Lleoliadau 'Park Run' Hyrwyddo'n weithredol lleoliadau 'Park Run' ledled Caerffili
WB06	£	Buddsoddiadau Arfaethedig
	4.160m	Datblygu cyfleuster Canolfan Seibiant pwrpasol newydd ym Mhontllan-fraith gyda'r potensial i ddarparu gwasanaethau seibiant o un lleoliad sy'n gwasanaethu'r fwrdeistref sirol gyfan.
	4.620m	Cyfleuster Iechyd Integredig - Tŷ Darran (Canolfan Iechyd/elfen o Dai) i gynnwys cyfraniad ariannol ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

5.9 Rhaglen Ymgysylltu Llundio Lleoedd Parhaus

Bydd y Rhaglen Llundio Lleoedd yn adeiladu ar yr egwyddorion o fewn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu'r cyngor a'r prosiectau a'r syniadau drafft a nodir ym mhwynt 5.8.

Cymeradwywyd egwyddorion y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu gan y Cabinet ym mis Chwefror 2020 ac mae'n cynnwys:

- Grymuso ein trigolion i gael mwy o ddylanwad dros y materion sy'n effeithio arnynt.
- Cynyddu a chryfhau rôl cymunedau yn y ffordd rydym yn byw, gweithio ac ymweld â bwrdeistref sirol Caerffili.
- Ein helpu i ddeall anghenion ein cymunedau, a fydd yn eu tro, yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn diwallu'r anghenion hynny, a bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn unol â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Cefnogi cymunedau i weithredu, drwy eu helpu i nodi anghenion, a'u cefnogi i ddatblygu atebion a arweinir gan y gymuned.

Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi cynnal arolwg preswylwyr cynhwysfawr o'r enw 'Trafodaeth Caerffili'. Gofynnodd Trafodaeth Caerffili am farn ar ystod eang o feysydd gan gynnwys boddhad â gwasanaethau'r cyngor, ein hymateb ar y cyd i bandemig COVID-19 a safbwyntiau ar feysydd fel addysg, tai, yr economi leol a newid yn yr hinsawdd. Mae canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori hwnnw yn cyfrannu'n ddefnyddiol iawn at y Fframwaith Lles a Llundio Lleoedd sy'n dod i'r amlwg, sydd wedi'i lunio ym mhwynt 5.8.

Caerffili – 'Lle i Bawb'

Bydd y Rhaglen Llundio Lleoedd – 'Lle i Bawb' yn adeiladu ar yr ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd hyd yma a bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu perthynas gryfach a pharhaus rhwng ein trigolion a'n gwasanaethau cyhoeddus – er mwyn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o anghenion a dyheadau'r gymuned ar gyfer y dyfodol.

Bydd y rhaglen yn ceisio datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer y math o le y mae ein trigolion am fyw ynddo a'r rôl gyfunol sydd gan bawb i'w chwarae wrth gyflawni hyn.

Bydd y canlynol yn elfennau allweddol o'r rhaglen:

- Hyfforddiant a datblygiad parhaus i gynghorwyr a staff allweddol y cyngor ynghylch cynnwys y gymuned a chyd-gynhyrchu gwasanaethau.
- Gwneud y defnydd gorau posibl o rwydwaith presennol y cyngor o staff sy'n cael deialog rheolaidd, parhaus y gellir ymddiried ynddo gyda phreswylwyr.
- Mapio asedau cymunedol ar lefel wardiau unigol er mwyn adeiladu ar rwydwaith ymgynghori/ymgysylltu presennol y cyngor – gan ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Prosiectau parhaus a arweinir gan y gymuned a'r cyngor wedi'u bathu fel 'Tîm Caerffili ar Waith' sy'n ceisio annog deialog barhaus, rhoi adborth a meithrin gallu cymunedol ymhellach.
- Y cyfle i ddefnyddio'r gwaith mapio rhanddeiliaid gwell er mwyn casglu mewnwelediadau rheolaidd ar wasanaethau allweddol – gan gynnwys addysg, adfywio a materion ansawdd bywyd.
- Arolygon preswylwyr 'gwirio barn' rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion allweddol ac yn amlygu cyfleoedd i fireinio'i ddulliau gweithredu.
- Rhaglen gylchol o ymgysylltu â'r gymuned dan arweiniad cynghorwyr a swyddogion, ar lefel ward cyngor unigol. Bydd y trafodaethau'n canolbwyntio i ddechrau ar nifer o ardaloedd a byddant yn cael eu cynnal ar draws nifer o lwyfannau. Bydd y rhain yn cynnwys:
 - balchder cymunedol
 - hunaniaeth
 - anghenion cymunedol
 - adnabod bylchau
 - beth sy'n bwysig i'n cymunedau wrth fyw bywydau llawn a ffyniannus

Fel rhan o'r rhaglen gylchol hon, gellir ystyried prosiectau sy'n bodoli eisoes a'u mireinio o bosibl tra hefyd yn darparu'r llwyfan ar gyfer ychwanegu syniadau prosiect ychwanegol i'r Fframwaith.

Ni fwriedir i'r dull parhaus hwn o ymgysylltu â'r gymuned ddisodli prosesau ymgynghori unigol, ffurfiol sy'n benodol i brosiectau neu gynlluniau penodol; yn hytrach, y bwriad yw hwyluso deialog gadarn, parhaus, hirdymor gyda'n cymunedau lle caiff cydberthnasau eu gwerthfawrogi a'u bod yn ymddiried ynddynt, a bydd yn cefnogi'r prosesau ymgynghori ac ymgysylltu mwy ffurfiol hynny yn ôl y gofyn.

5.10 Casgliad

Dros y paragraffau uchod, mae buddsoddiad o werth mwy na £485m wedi'i amlinellu. Mae rhywfaint o hyn wedi'i wneud dros flynyddoedd blaenorol, ond gellir defnyddio cyfran sylweddol i lunio dyfodol Caerffili dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r cynigion Lles a Llunio Lleuedd a nodir ym mhwynt 5.8 yn darparu buddsoddiad sylweddol i ddyfodol y fwrdeistref sirol o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac

amgylcheddol ac mae'r rhaglen ymgysylltu a nodir o bwynt 5.9 ymlaen yn nodi'r mecanwaith y gall rhanddeiliaid allweddol ei ddefnyddio er mwyn llunio'r rhaglen yn uniongyrchol gyda'r Cyngor wrth iddi gael ei datblygu. Mae hyn yn darparu llwybr ymlaen hanfodol i'n cymunedau er mwyn adeiladu dyfodol cadarn a chynaliadwy wrth iddynt ddod allan o'r pandemig Covid.

Os bydd y Cabinet yn cytuno ar y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd a nodir ym mhwynt 5.8 bydd yn cytuno i fuddsoddi'n sylweddol yn ei gymunedau, ar adeg allweddol i'r adferiad ein cymunedau o effeithiau'r pandemig COVID-19.

Ni ddylid tanbriso'r manteision posibl y gall y Fframwaith eu darparu wrth ddatblygu, gwella ac adnewyddu seilwaith ac asedau o bob rhan o Gaerffili. Gall buddsoddiad parhaus o'r gwerth a'r maint hwn helpu i gryfhau'r economi leol, cynyddu cadernid cymunedol a dod â swyddi a chyfleoedd.

6. RHAGDYBIAETHAU:

- 6.1 Tybir y bydd y dirwedd economaidd bresennol ac yn y dyfodol yn ddigon hyfyw i'r prosiectau a gynigir yn adran 5.8 gael eu datblygu.
- 6.2 Pe bai prosiectau penodol yn anymarferol yn y pen draw, tybir y byddai'n bosibl dargyfeirio'r cyllid i gefnogi prosiectau Llunio Lleoedd eraill.
- 6.3 Mae cyflawni'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd ar gyflymder a graddfa yn hollbwysig a bydd ei lwyddiant yn gyfyngedig heb y capasiti uwch reolwyr a rheoli prosiectau ychwanegol y cyfeirir ato yn adran 11.

7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISIŶAU PERTHNASOL Y CYNGOR

- 7.1 Amcanion Lles Caerffili 2018-2023. Bydd y cynnig hwn yn cynorthwyp'r Cyngor wrth ddiwallu pob un o'i chwe amcan lles:
 - **Amcan Lles 1** – Gwella cyfleoedd addysg i bawb.
 - **Amcan Lles 2** – Galluogi cyflogaeth.
 - **Amcan Lles 3** – Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd tai ar draws y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu gwella iechyd a lles pobl.
 - **Amcan Lles 4** – Hyrwyddo system gludiant fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hyrwyddo ffyniant, ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.
 - **Amcan Lles 5** – Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi dull byw iachus yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn rhan o Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- **Amcan Lles 6** – Cefnogi dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu lles.

7.2 Mae'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd hefyd yn cyd-fynd yn benodol â'r canlynol gan y Cyngor:

- TîmCaerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd
- Strategaeth Ddrafft Chwaraeon a Hamdden Egniol 2019–2029
- Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif - Band B - 2019-2026
- Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014
- Sylfaen ar gyfer Llwyddiant 2018-2023
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru 2015
- Fframwaith Adfer Strategol COVID-19 2020
- Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2019-2022

8. Lles Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i gyrrff cyhoeddus feddwl yn fwy am yr hir-dymor, gweithio gyda phobl a chymunedau, ac edrych i atal problemau, a chymryd ymagwedd sy'n fwy unedig. Bydd hyn yn ein helpu ni i greu Cymru rydyn ni i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod lles:

- Cymru ffyniannus.
- Cymru gwydn.
- Cymru iachach.
- Cymru fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru o ddiwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

8.2 Mae'r Ddeddf yn nodi'r egwyddor datblygu cynaliadwy y dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru asesu ei phenderfyniadau yn ei herbyn. Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol trwy wneud y mwyaf o'r cyfraniad y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud tuag at y nodau lles. Wrth ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i ystyried y boblogaeth gyfan y mae'n ei gwasanaethu ac yn ystyried effaith ei weithredoedd ar genedlaethau'r dyfodol. Asesir yr egwyddor, a elwir hefyd yn bum ffordd o weithio, isod:

- **Tymor Hir** –Mae'r Fframwaith Llunio Lleoedd yn fuddsoddiad aml-flwyddyn mewn ystod eang o gyfleusterau newydd sydd â'r potensial i fod o fudd i'r gymuned gyfan

ynghyd â chyfrannu at bob un o chwe amcan lles y Cyngor.

- **Atal** – Mae gan ddarparu cyfleusterau a rhaglenni newydd, o'r radd flaenaf mewn sawl achos, y potensial i gefnogi llunio o waith ataliol ar draws y Fwrdeistref.
- **Integreiddio** - Dyluniwyd y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd er mwyn integreiddio'n uniongyrchol ag Amcanion Lles y Cyngor ei hun a'r rhai y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- **Cydweithredu** - Bydd angen integreiddio llawer o raglenni'r Fframwaith Lles a Llunio Lle ar draws Cyfarwyddiaethau'r Cyngor yn ogystal â phartneriaid allweddol o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.
- **Ymglymiad** - Cynigir bod y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd yn cael ei danategu gan raglen ymgysylltu barhaus o'r enw 'Caerffili - lle i bawb' a fydd yn rhoi cyfle i randdeiliaid allweddol gymryd rhan uniongyrchol yn nyfodol y Fframwaith. Bydd ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu yn sail i bob prosiect yn y Fframwaith drafft hefyd.

9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

- 9.1 Bydd y Goblygiadau Cydraddoldeb yn amrywio'n sylweddol ar draws pob prosiect yn y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd drafft. Gyda hyn mewn golwg, bydd angen mynd i'r afael â goblygiadau cydraddoldeb pob un o'r prosiectau arfaethedig fel rhan o'r mecanweithiau datblygu a chyflawni prosiectau.

10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 10.1 Mae'r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd yn rhaglen uchelgeisiol a fydd angen buddsoddiad ar raddfa fawr. Bydd ariannu'r prosiectau yn cynnwys cyfuniad o ddulliau gyda rhai yn cael eu hariannu'n uniongyrchol trwy adnoddau'r Cyngor, rhai trwy gyllid allanol ochr yn ochr â gofyniad cyllid cyfatebol ar gyfer y Cyngor a rhai wedi'u hariannu'n llwyr yn allanol.
- 10.2 Wrth i rai prosiectau gael eu datblygu'n achosion busnes i'w hystyried, bydd angen ystyried y goblygiadau ariannol manwl yn unol â Chyfansoddiad a Rheolau Sefydlog Ariannol y Cyngor. Lle bynnag y bo modd, un o'r ysgogwyr allweddol yn natblygiad achosion busnes fydd sicrhau cyllid gan grantiau a/neu bartneriaid allanol.
- 10.3 Yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2020, cymeradwyodd Cabinet argymhelliad i glustnodi £24.543 miliwn o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer y Fframwaith Llunio Lleoedd. Ar ben hynny, yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2020, cymeradwyodd y Cyngor cyllid pellach ar gyfer y Fframwaith Llunio Lleoedd sy'n dod i gyfanswm o £4.048 miliwn o arbedion 2020/21 ymlaen llaw a balans dros ben ar y Gronfa Gyffredinol. Daw hyn â chyfanswm y cyllid cymeradwy hyd yma i £28.591m.

- 10.4 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo argymhelliad pellach y dylid dyrannu cyllid o £1.640 miliwn a gedwir yng Nghyfraniad Refeniw Cyllid Amrywiol at Wariant Cyfalaf 2020/21 (RCCO) i'r Fframwaith Llundio Lleoedd, a fyddai'n cynyddu cyfanswm y cyllid sydd ar gael i £30.231 miliwn.

11. GOBLYGIADAU PERSONÉL

- 11.1 Er mwyn cyflwyno rhaglen fuddsoddi o'r maint a'r raddfa hon, mae cyflwyno'r Fframwaith Lles a Llundio Lleoedd wedi'i nodi fel blaenoriaeth graidd i dîm Arweinyddiaeth y Cyngor. I ategu'r ffocws hwn, cyflwynwyd cais twf fel rhan o gyllideb 2021/22 a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021 i benodi adnoddau ychwanegol.
- 11.2 Mae'r cais twf yn ceisio sicrhau cyflogaeth barhaol i'r adnoddau trawsnewid tymor penodol yn ogystal â chreu Pennaeth Trawsnewid parhaol newydd a Phennaeth Ffyniant parhaol newydd.
- 11.3 Bydd y Fframwaith hefyd yn cael ei ategu trwy gaffael pedwar adnodd rheoli prosiect tymor penodol a chreu swyddfa rheoli prosiect i gefnogi cyflwyno'r rhaglen drawsnewid eang hon o fuddsoddiadau.
- 11.4 Bydd yr adnodd ychwanegol hwn, ynghyd â ffocws presennol y tîm arweinyddiaeth gorfforaethol, yn galluogi rhaglen drawsnewid ehangach "Tîm Caerffili" y Cyngor i gael ei hymgorffori a'i symud ymlaen ar y cyflymder angenrheidiol. Mae'r Fframwaith Lles a Llundio Lleoedd yn elfen ganolog o'r rhaglen gyffredinol hon o fuddsoddi a newid. Os na fydd y cais am adnoddau ychwanegol yn cael ei gefnogi gan y Cyngor fel rhan o gyllideb 2021/22, ni fydd y fframwaith Llundio Lleoedd yn gallu cyflawni ar y cyflymder a'r raddfa a ddymunir a bydd angen "israddio'r rhaglen" i alinio ag unrhyw un adnoddau presennol sydd ar gael.

12. YMGYNGHORIADAU

- 12.1 Dosbarthwyd yr adroddiad drafft fel y manylir isod. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hadlewyrchu yn y fersiwn hon o'r adroddiad.

13. PŴER STATUDOL

- 13.1 Amryw o ddeddfwriaeth Llywodraeth Leol gan gynnwys Deddfau Llywodraeth Leol 1972, 2000 a 2003, a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Awdur: Christina Harray, Prif Weithredwr

Ymgynghoreion: Y Cyng. Philippa Marsden, Arweinydd
Y Cyng. Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi a Menter
Y Cyng. Eluned Stenner, Aelod Cabinet dros Wasanaeth Perfformiad a Gwasanaethau i Gwsmeriaid
Y Cyng. Ross Whiting, Aelod Cabinet dros Ddysgu ac Chyflawniad
Y Cyng. John Ridgewell, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd
Y Cyng. Colin Gordon, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol
Y Cyng. Nigel George, Aelod Cabinet dros Wastraff a Diogelu'r cyhoedd

Y Cyng. Lisa Phipps, Aelod Cabinet y Cyngor dros Gartrefi ac Eiddo
Y Cyng. Shayne Cook, Aelod Cabinet dros ddysgu a Chyflawniad
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
a Thai
Ed Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau
Corfforaethol
Mark S Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Cymunedau
Steve Harris, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran
151
Robert Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog
Monitro
Y Cyng. Colin Mann, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru Group
Y Cyng. Kevin Etheridge, Arweinydd y Grŵp Annibynol n